

Cronfa Bensiynau Clwyd
Gweithdrefn ar gyfer Cofnodi ac
Adrodd am Achosion o Dor-Cyfraith /
Taliadau Hwyr o Gyfraniadau gan
Gyflogwr
Chwefror 2025



Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Gofynion Cyfreithiol a Chod Ymarfer.....	4
Deddf Bensiynau 2004: Dyletswydd i roi gwybod am achosion o dor-cyfraith.....	4
Deddf Bensiynau 2004: Dyletswydd i roi gwybod am daliadau hwyr o gyfraniadau gan gyflogwr	5
Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau.....	5
Ei gymhwyso i Gronfa Bensiynau Clwyd	6
Gofynion Eraill gan Sefydliad neu Awdurdod Gweinyddol.....	6
Gweithdrefn Cronfa Bensiynau Clwyd ar gyfer Achosion o Dor-Cyfraith.....	7
Cymorth i unigolion ddilyn y weithdrefn hon	12
Adrodd am achos o dor-cyfraith wrth y Rheoleiddiwr Pensiynau.....	13
Cyfrinachedd	14
Ystyriaeth ac adroddiadau parhaus am achosion o dor-cyfraith y Gronfa.....	14
Cymeradwyo ac Adolygu.....	15
Gwybodaeth Bellach	15
Atodiad A: Enghreifftiau o dor-cyfraith	16
Atodiad B: Cofnod Enghreifftiol o Dor-Cyfraith ar gyfer Adrodd i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn	20

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn gan unigolion penodol sy'n ymwneud â Chronfa Bensiynau Clwyd ("y Gronfa") mewn perthynas ag adnabod, cofnodi ac o bosibl rhoi gwybod am unrhyw dor-cyfraith neu gyfraniadau hwyr gan gyflogwyr i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Gall achosion o dor-cyfraith ddigwydd mewn amrywiaeth eang o dasgau sy'n gysylltiedig fel arfer â'r swyddogaeth o weithredu cynllun megis cadw cofnodion, rheolaethau mewnol, cyfrifo buddion a gwneud buddsoddiadau neu benderfyniadau yn ymwneud â buddsoddi. Lluniwyd y ddogfen hon i gynorthwyo swyddogion â'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a, lle bo angen, rhoi gwybod am achosion o dor-cyfraith i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gofyniad cyfreithiol i roi gwybod am achosion o dor-cyfraith i'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn berthnasol i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli'r Gronfa sy'n nodi neu'n dod i wybod am achosion o dor-cyfraith y gellir eu hystyried yn sylweddol i'r Rheoleiddiwr, megis rhai o natur fwy difrifol sy'n ymwneud ag anonestrwydd neu dwyll. Mae'r Weithdrefn hon felly hefyd yn cynorthwyo Pwyllgor a Bwrdd y Gronfa Bensiynau ac eraill a nodwyd yn y Weithdrefn hon ar y broses i'w dilyn yn yr amgylchiadau sydd, gyda lwc, yn brin iawn. Fe'i datblygwyd hefyd i gynorthwyo Cyngor Sir y Fflint, yn ei rôl fel Awdurdod Gweinyddu (y cyfeirir ato hefyd fel Rheolwr y Cynllun a Chorff Llywodraethu mewn rheoliadau a chanllawiau amrywiol), i sicrhau ei fod yn ymwybodol o bob achos o dor-cyfraith mewn perthynas â Chronfa Bensiynau Clwyd a bod y rhain yn cael eu cofnodi a'u trin yn briodol.

I bwy mae'r Weithdrefn hon yn berthnasol

Fel Awdurdod Gweinyddu, mae Cyngor Sir y Fflint wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb o reoli Cronfa Bensiynau Clwyd o ddydd i ddydd i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, ac felly maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau fod y Weithdrefn hon yn cael ei gweithredu.

Mae'r unigolion canlynol, yn ogystal ag unrhyw un arall sydd â chyfrifoldeb dros adrodd am achosion o dor-cyfraith mewn perthynas â Chronfa Bensiynau Clwyd, yn cael eu hannog yn gryf i ddilyn y Weithdrefn hon os ydynt yn nodi achos o dor-cyfraith. Mae'r Weithdrefn hon yn berthnasol i chi os ydych yn:

- aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau neu'r Bwrdd Pensiwn.
- swyddog sy'n gysylltiedig â rheoli neu weinyddu'r Gronfa Bensiynau gan gynnwys aelod o staff yn Nhîm Cronfa Bensiynau Cyngor Sir y Fflint, y Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) a'r Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol.
- ymgynghorydd proffesiynol i'r Gronfa, gan gynnwys archwilydd allanol, actwari, ymgynghorydd cyfreithiol, rheolwr cronfa, ymgynghorydd annibynnol, ymgynghorydd llywodraethu neu ymgynghorydd buddion¹.

¹ Fodd bynnag, dylai'r ymgynghorwyr hyn nodi bod cymhwyso'r Weithdrefn hon yn ymwneud ag adrodd am dor-cyfraith o ran gweinyddu'r Gronfa Bensiynau, yn hytrach nag unrhyw dor-cyfraith sy'n gysylltiedig â'u rôl a'u cyfrifoldebau nad ydynt yn effeithio ar weinyddu'r Gronfa. Er enghraifft, os yw rheolwr y gronfa wedi torri canllawiau cymdeithas fuddsoddi, yna ni fyddai modd adrodd am hyn o dan Weithdrefn Adrodd am Dor-Cyfraith Cronfa Bensiynau Clwyd (ond byddai'r Awdurdod Gweinyddu yn disgwyl y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar wahân ac yr hysbysir Cyngor Sir y Fflint).

- swyddog cyflogwr sy'n rhan o Gronfa Bensiynau Clwyd sy'n gyfrifol am faterion pensiwn.
- unrhyw unigolyn arall sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â chynghori rheolwyr y Gronfa, gan gynnwys Swyddog Monitro Cyngor Sir y Fflint ac aelod o staff Archwilio Mewnol.

Trwy gydol y Weithdrefn hon, mae unrhyw gyfeiriadau atoch "chi" yn golygu unrhyw unigolyn y mae'r Weithdrefn hon yn berthnasol iddynt.

Mae'r adran nesaf yn egluro'r gofynion cyfreithiol a'r Cod Ymarfer mewn perthynas â rhoi gwybod am achosion o dor-cyfraith a methiannau i wneud cyfraniadau.

Gofynion Cyfreithiol a Chod Ymarfer

Deddf Bensiynau 2004: Dyletswydd i roi gwybod am achosion o dor-cyfraith

Mae Adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolion canlynol:

- ymddiriedolwr neu reolwr cynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol
- aelod o fwrdd pensiwn cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus
- rhywun sy'n gysylltiedig mewn ffordd arall â gweinyddu cynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol
- y cyflogwr mewn perthynas â chynllun pensiwn galwedigaethol
- ymgynghorydd proffesiynol mewn perthynas â'r cynllun
- unigolyn sy'n gysylltiedig mewn ffordd arall â chynghori ymddiriedolwyr neu reolwyr cynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol ynghylch y cynllun
- strategydd cynllun neu gyllidwr cynllun Prif Ymddiriedolaeth

i adrodd am fater i'r Rheoleiddiwr Pensiynau cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol os oes gan unrhyw unigolyn (a restrir uchod) reswm i gredu:

- (a) na chydymffurfiwyd neu na chydymffurfir â dyletswydd gyfreithiol sy'n ymwneud â gweinyddu'r cynllun, a
- (b) bod methiant i gydymffurfio yn debygol o fod o bwys arwyddocaol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Deddf Bensiynau 2004: Dyletswydd i roi gwybod am daliadau hwyr o gyfraniadau gan gyflogwr

Mae Adran 70A yn y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheolwr cynllun roi gwybod am y mater i'r Rheoleiddiwr Pensiynau cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol lle²:

- (a) nad yw cyfraniadau sy'n daladwy i gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus gan neu ar ran gyflogwr wedi cael eu talu ar neu cyn y dyddiad dyledus, ac
- (b) mae gan y rheolwr cynllun achos rhesymol i gredu bod y methiant yn debygol o fod o bwys arwyddocaol i'r Rheoleiddiwr.

O ran y ddwy ddarpariaeth uchod, mae'r ddyletswydd i roi gwybod am achosion o dor-cyfraith neu daliadau hwyr o gyfraniadau dan y Ddeddf yn diystyru unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r unigolion a restrir uchod yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, nid yw'r ddyletswydd i adrodd yn bwysicach na 'braint gyfreithiol'. Mae hyn yn golygu yn gyffredinol nad oes rhaid i'r cyfathrebu sy'n digwydd rhwng ymgynghorydd cyfreithiol a'i gleient, neu unigolyn sy'n cynrychioli'r cleient, mewn cysylltiad â chynghor cyfreithiol sy'n cael ei roi i'r cleient, gael ei ddatgelu.

Mae'r Ddeddf yn datgan y gall unigolyn dderbyn cosb sifil os ydynt yn methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn heb esgus rhesymol.

Fel yr eglurir yn nes ymlaen yn y Weithdrefn hon, fe'ch anogir i roi gwybod am unrhyw fater o'r fath i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd (neu swyddog neu aelod arall o Bwyllgor neu Fwrdd y Gronfa Bensiynau) i geisio eu cyngor yn y lle cyntaf.

Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau³

Darperir canllawiau ymarferol mewn perthynas â'r gofynion cyfreithiol hyn yng Nghod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau o fewn yr adran "[Reporting to TPR: Whistleblowing – reporting breaches of the law](#)" (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Amlinellir y gofynion yn y pedwar modiwl canlynol:

- Pwy ddylai roi gwybod: manylion ynghylch dyletswydd pwy yw rhoi gwybod am achosion o dorri'r gyfraith.
- Penderfyniad i roi gwybod: y ffactorau y dylai'r sawl sy'n rhoi gwybod eu hystyried wrth benderfynu p'un a ddylid dweud wrth y Rheoleiddiwr Pensiynau am achosion o dor-cyfraith.
- Sut i roi gwybod: manylion am y wybodaeth i'w chynnwys wrth roi gwybod am achos o dor-cyfraith a sut i'w hanfon at y Rheoleiddiwr Pensiynau.

² Ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd, y rheolwr cynllun yw Cyngor Sir y Fflint (fel yr Awdurdod Gweinyddu), er bod eu cyfrifoldebau wedi'u dirprwyo i Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd a Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

³ Cod mewn grym: 28 Mawrth 2024

<https://www.thepensionsregulator.gov.uk/en/document-library/code-of-practice> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

- Rhoi gwybod am fethiannau o ran taliadau: achosion o fethiant sylweddol i wneud taliad, mae'n rhaid rhoi gwybod o fewn cyfnod rhesymol

Mae'n bwysig nodi, er bod y gofynion hyn yn canolbwyntio ar **roi gwybod** am dor-cyfraith neu fethiannau i wneud cyfraniadau, mae'r Cod Ymarfer yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r corff llywodraethu gael Gweithdrefn ar gyfer **cofnodi** achosion o dor-cyfraith, ac felly mae'r Weithdrefn hon yn amlinellu sut y gwneir hyn ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd.

Ei gymhwyso i Gronfa Bensiynau Clwyd

Rydym wedi datblygu'r Weithdrefn hon ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut byddwn yn ceisio cyflawni arfer orau trwy ddefnyddio gweithdrefn ffurfiol i adrodd am achosion o dor-cyfraith. Mae'n adlewyrchu'r canllawiau a geir yng Nghod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Mae hyfforddiant ar adrodd am achosion o dor-cyfraith a dyletswyddau statudol cysylltiedig, ac ynglŷn â sut i ddefnyddio'r Weithdrefn hon yn cael ei ddarparu i aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, aelodau o'r Bwrdd Pensiwn a swyddogion allweddol sy'n gysylltiedig â rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd yn rheolaidd. Os yw'r Weithdrefn hon yn berthnasol i chi ac mae arnoch chi angen hyfforddiant, cysylltwch â'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau (neu'r Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau pan benodir i'r swydd hon) neu'r Swyddog Llywodraethu.⁴

Yn benodol, er mwyn i chi fedru deall eich cyfrifoldebau mewn perthynas â rhoi gwybod, dylech gyfeirio at yr adran yn y Cod ar Rannu Pryderon "**Whistleblowing - reporting breaches of the law**" (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg), a darllen y modiwlau canlynol:

- Pwy ddylai roi gwybod
- Penderfyniad i roi gwybod
- Sut i roi gwybod
- Rhoi gwybod am fethiannau o ran taliadau

Mae gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ganllawiau defnyddiol pellach ar gyfer asesu p'un a ddylid rhoi gwybod am achos o dor-cyfraith hefyd "**Assess whether to report a breach of the law**" (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Gofynion Eraill gan Sefydliad neu Awdurdod Gweinyddol

Yn ogystal â gofynion y Weithdrefn hon, mae'n bosibl y bydd polisïau a gweithdrefnau eraill mewn lle yn ymwneud â meysydd fel twyll a rhannu pryderon sy'n berthnasol i chi neu unigolion eraill a gwmpesir yn y Weithdrefn hon. Er enghraifft, mae'r canlynol mewn lle yng Nghyngor Sir y Fflint:

⁴ Fe ddylid ystyried pob cyfeiriad at y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau yn y ddogfen hon fel Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau unwaith y bydd y swydd honno wedi cael ei llenwi.

- Strategaeth Gorfforaethol Gwrth-dwyll a Llygredigaeth: sy'n berthnasol i bob gweithiwr ac aelod o Gyngor Sir y Fflint, sefydliadau partner, cyflenwyr y Cyngor, contractwyr ac ymgynghorwyr, a'r cyhoedd ac yn amlinellu proses tri cham y Cyngor i atal a datgelu
- Cynllun Ymateb Twyll ac Afreoleidd-dra: canllawiau i weithwyr a rheolwyr Cyngor Sir y Fflint
- Polisi Rhannu Pryderon: nodi sut y gall rhywun sy'n gweithio gyda Chyngor Sir y Fflint neu yn y Cyngor dynnu sylw at fater yn gyfrinachol.

Dylid dilyn y Weithdrefn hon yn ogystal ag unrhyw weithdrefnau neu bolisiâu presennol sydd mewn lle ac yn berthnasol i chi, megis y rheiny a restrir uchod. Yn arbennig, fe'ch atgoffir bod gofyniad cyfreithiol i roi gwybod am achosion o dor-cyfraith mewn perthynas â Chronfa Bensiynau Clwyd a allai gael eu hystyried yn arwyddocaol gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Gall Swyddog Monitro'r Cyngor (manylion cyswllt ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon) gynorthwyo os ydych chi'n ansicr ynglŷn â sut i ymdrin â'r rhyngweithiad rhwng y Weithdrefn hon ac unrhyw un o bolisiâu neu weithdrefnau eraill y sefydliad sydd mewn lle.

Gweithdrefn Cronfa Bensiynau Clwyd ar gyfer Achosion o Dor-Cyfraith

Mae'r Weithdrefn ganlynol yn nodi sut gallwch nodi, asesu, cofnodi ac adrodd am achos o dor-cyfraith (os yw hynny'n briodol) i Gronfa Bensiynau Clwyd. Dylid hefyd defnyddio'r weithdrefn os ydych yn credu y dylem adrodd am daliad hwyr o gyfraniadau gan gyflogwr y cynllun.

Mae'r Weithdrefn yn anelu at sicrhau eich bod yn gallu cyflawni eich rhwymedigaethau cyfreithiol ac osgoi dibynnu ar eraill i adrodd. Bydd y Weithdrefn hefyd yn cynorthwyo i ddarparu rhybudd cynnar o gamymddwyn posibl a gostwng y risg. Mae sawl elfen allweddol i'r Weithdrefn hon:

1. Deall y gyfraith a beth yw amheuaeth o dor-cyfraith
2. Deall y ffeithiau mewn perthynas ag achos tybiedig o dor-cyfraith er mwyn pennu p'un a yw'n dor-cyfraith gwirioneddol
3. Pennu a yw'r achos o dor-cyfraith yn debygol o fod o bwys arwyddocaol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau
4. Dilyn ein proses atgyfeirio at lefel uwch briodol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch p'un a ddylid rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.
5. Sut i ymdrin ag achosion anodd
6. Terfynau amser ar gyfer cwblhau'r weithdrefn i sicrhau bod modd rhoi gwybod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol
7. Sicrhau fod achosion o dor-cyfraith yn cael eu cofnodi, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau
8. Sut rydym yn adolygu ein gweithdrefnau adrodd yn dilyn unrhyw newidiadau pwysig i drefniadau llywodraethu'r Gronfa

Eglurir y rhain isod:

1. Deall y gyfraith a beth yw amheuaeth o dor-cyfraith

Gall tor-cyfraith gynnwys unrhyw weithred sy'n mynd yn groes i, neu fethiant i gydymffurfio â, gofyniad cyfreithiol. Er bod y Ddeddf Bensiynau'n cyfeirio'n benodol at "ddyletswydd sy'n berthnasol i weinyddu'r cynllun", mae Cod Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau'n egluro eu bod yn dehongli 'gweinyddu' mewn modd mwy eang na thasgau gweinyddol dydd i ddydd. Yng nghyd-destun y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (y mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn rhan ohono), gall gynnwys sawl agwedd o reoli a gweinyddu'r cynllun o ystyried y fframwaith cyfreithiol ehangach sy'n berthnasol i'r cynllun. Gall hyn gynnwys achosion o dor-cyfraith, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r meysydd canlynol:

- cadw cofnodion
- ymdrin â symud aelodau
- cyfrifo buddion
- paratoi cyfrifon
- polisi buddsoddi
- rheoli buddsoddiadau
- cadw asedau a fuddsoddwyd
- ariannu'r cynllun

Ceir enghreifftiau o achosion posibl o dor-cyfraith yn Atodiad A hefyd.

Efallai y bydd angen i chi gyfeirio at reoliadau a chanllawiau wrth ystyried p'un a yw'r gyfraith wedi cael ei thorri ai peidio. Gwelir rhai o'r darpariaethau allweddol isod:

- Adran 70 a 70 o Ddeddf Pensiynau 2004:
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/35/contents
- Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol a Phersonol (Datgelu Gwybodaeth) 2013 (Rheoliadau Datgelu):
www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2013/2734/contents/made
- Deddf Cynlluniau Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus 2013:
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2013/25/contents
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ("CPLIL") (amrywiol):
www.lgpsregs.org/timelineregs/Default.html (cynlluniau cyn 2014) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).
www.lgpsregs.org/index.php/regs-legislation (cynllun 2014) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).
- Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau:
<https://www.thepensionsregulator.gov.uk/en/document-library/code-of-practice> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Os oes arnoch chi angen canllawiau a chymorth pellach, cysylltwch â Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd neu'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau, cyn belled nad yw gofyn am y cymorth hwn yn arwain at eu hysbysu os ydych chi'n credu y gallan nhw fod yn gyfrifol am

drosedd ddifrifol (lle mae'r achos o dor-cyfraith yr ydych yn ymchwilio iddo'n gysylltiedig â'r drosedd honno).

2. Deall y ffeithiau mewn perthynas ag achos tybiedig o dor-cyfraith er mwyn pennu p'un a yw'n dor-cyfraith gwirioneddol

Wrth ystyried p'un i roi gwybod am achos o dor-cyfraith neu beidio, bydd yn rhaid i chi gael rheswm dros gredu fod achos o dorri'r ddarpariaeth gyfreithiol berthnasol wedi digwydd, ac nid amheuaeth yn unig. Os ydych yn amau fod achos o dor-cyfraith wedi digwydd, dylech gynnal gwiriadau pellach i gadarnhau hynny.

Os nad ydych chi'n siŵr o'r ffeithiau neu'r digwyddiadau, fel arfer bydd yn briodol gwirio â Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd neu'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau gan obeithio y byddant yn gallu esbonio beth sydd wedi digwydd. Yn amlwg, gallwch hefyd gysylltu ag unigolion eraill sydd ynghlwm â rheoli'r Gronfa, megis aelod o Bwyllgor neu Fwrdd Cronfa Bensiynau Clwyd, ymgynghorydd neu aelod uwch arall o'r Gronfa. Fodd bynnag mewn rhai sefyllfaoedd ni fydd yn briodol cynnal gwiriadau pellach, er enghraifft, os ydych chi wedi dod yn ymwybodol o ladrad, amheuaeth o dwyll neu drosedd ddifrifol arall ac os ydych hefyd yn gwybod y gallai cynnal gwiriadau pellach beri iddynt hysbysu'r troseddwr neu amharu ar gamau gweithredu'r heddlu neu awdurdod rheoleiddio. Ystyrir hyn yn nes ymlaen yn y Weithdrefn hon.

3. Pennu a yw'r achos o dor-cyfraith yn debygol o fod o bwys arwyddocaol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau

Os oes gennych reswm i gredu fod rhywun wedi torri'r gyfraith, rhaid i chi benderfynu a yw'r achos yn debygol o fod o bwys arwyddocaol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau wrth gyflawni eu swyddogaethau, sy'n golygu felly y dylid rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. I wneud hyn, dylai unigolyn ystyried y canlynol, ar wahân ac ar y cyd:

- beth a achosodd y tor-cyfraith (beth wnaeth iddo ddigwydd)
- effaith y tor-cyfraith (canlyniad(au) y tor-cyfraith)
- ymateb i'r tor-cyfraith
- goblygiadau ehangach y tor-cyfraith.

Darperir manylion pellach ar y pedwar ystyriaeth uchod yng Nghod Ymddygiad y Rheoleiddiwr Pensiynau, felly dylech gyfeirio at hwn wrth ystyried p'un a yw tor-cyfraith yn debygol o fod o bwys arwyddocaol: [Decision to report breaches TPR code module | The Pensions Regulator](#) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Gallwch hefyd ofyn am yr adroddiad diweddaraf o dor-cyfraith gan y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau neu'r Swyddog Llywodraethu, gan y gallai gynnwys manylion achosion eraill o dor-cyfraith a allai roi cynsail defnyddiol ar gyfer y camau gweithredu priodol i'w cymryd.

Dylid nodi bod rôl y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â'r gofynion o dan Ddeddf Pensiynau 2004. Felly, mae'n bosibl nad yw rhai achosion o dor-cyfraith yn rhan o gylch gwaith y Rheoleiddiwr. Fodd bynnag, o ystyried natur gymhleth y gyfraith, gan gynnwys y

cyfrifoldebau helaeth sydd yn Neddf Pensiynau 2004, rydym yn annog adrodd am unrhyw dor-cyfraith mewn perthynas â Chronfa Bensiynau Clwyd sy'n sylweddol waeth pa faes penodol o'r gyfraith sydd wedi'i dorri. Yna gall y Rheoleiddiwr Pensiynau benderfynu a yw'n fater y mae ganddynt awdurdodaeth drosto ai peidio.

Taliad hwyr o gyfraniadau cyflogwr a/neu aelod cynllun gan gyflogwr

Os yw eich rôl yn cynnwys gweithredu fel y rheolwr cynllun (h.y. Awdurdod Gweinyddu) ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd, mae'n ofyniad cyfreithiol arnoch i roi gwybod am unrhyw achos lle rydych yn credu bod methiant i dalu cyfraniadau gan gyflogwr yn debygol o fod o bwys arwyddocaol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Darperir manylion pellach am fethiannau i dalu cyfraniadau yng Nghod Ymddygiad y Rheoleiddiwr Pensiynau, felly dylech gyfeirio at hwn wrth ystyried p'un a yw tor-cyfraith yn debygol o fod o bwys arwyddocaol [Reporting payment failures TPR code module | The Pensions Regulator](#) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

4. Dilyn ein proses atgyfeirio at lefel uwch briodol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch p'un a ddylid rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Rydym wedi dynodi Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yn gyfrifol am sicrhau fod y Weithdrefn hon yn cael ei gweithredu. Gallwch gysylltu â nhw neu'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau i'w helpu i ddilyn y Weithdrefn hon. Ystyrir bod gan y ddau brofiad priodol:

- i helpu i ymchwilio p'un a oes achos rhesymol i gredu bod tor-cyfraith wedi digwydd
- i wirio'r gyfraith a ffeithiau'r achos
- i bennu p'un a yw'r achos yn debygol o fod o bwys arwyddocaol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau (ac felly p'un a ddylid rhoi gwybod amdano)
- i gadw cofnodion o achosion o bob achos o dor-cyfraith ac
- i helpu ag unrhyw adroddiadau i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, lle bo hynny'n briodol.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddant yn cynnwys Ymgynghorydd Annibynnol y Gronfa os bydd arnynt angen barn bellach ar y mater, megis p'un a yw'r mater yn ddigon arwyddocaol i roi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Dylech gadw mewn cof fodd bynnag mai pwrpas cynnwys Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd neu'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau yw helpu i egluro proses feddwl yr unigolyn a sicrhau fod y Weithdrefn hon yn cael ei dilyn. Chi sy'n gyfrifol am y penderfyniad terfynol o ran p'un a ddylid rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau am fater ac am gwblhau'r weithdrefn adrodd.

Ni ddylai'r mater gael ei gyfeirio at Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a/neu'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau pe bai gwneud hynny yn hysbysu unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am drosedd ddifrifol bosibl o'r ymchwiliad, er enghraifft, mewn achos o anonestrwydd. Os felly, gallech gyfeirio'r mater at Swyddog Monitro Cyngor Sir y Fflint yn lle hynny. Fel arall, dylech roi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau am y mater gan amlinellu'r rhesymau dros adrodd, gan gynnwys unrhyw ansicrwydd.

5. Sut i ymdrin ag achosion anodd

Efallai y gall Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau ddarparu arweiniad ar achosion arbennig o gymhleth. Gellir cael arweiniad hefyd trwy gyfeirio at achosion blaenorol a allai fod yn ddefnyddiol. Efallai y bydd gwybodaeth ar gael gan adnoddau cenedlaethol Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun (www.lgpsboard.org) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg), y Gymdeithas Llywodraeth Leol (www.lgpsregs.org) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg) neu benderfyniadau blaenorol yr Ombudsmon Pensiynau (www.pensions-ombudsman.org.uk/decisions) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Os yw'r terfynau amser yn caniatáu, gellir cael cyngor cyfreithiol neu gyngor proffesiynol arall a gellir trafod yr achos yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor neu'r Bwrdd.

6. Terfynau amser ar gyfer cwblhau'r weithdrefn i sicrhau bod modd rhoi gwybod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol

Mae'r Ddeddf Bensiynau a Chod y Rheoleiddiwr Pensiynau yn mynnu, os ydych yn penderfynu rhoi gwybod am achos o dor-cyfraith, bod rhaid i'r adroddiad gael ei gyflwyno yn ysgrifenedig cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau'n awgrymu, yn y mwyafrif o achosion, y dylid gwneud hyn o fewn 10 diwrnod gwaith i nodi'r tor-cyfraith. Fodd bynnag, maent yn nodi y dylech ddefnyddio eich crebwyll a meddwl mewn modd rhesymol ymarferol mewn perthynas â'ch amgylchiadau eich hunan. Dylid ystyried ffactorau megis difrifoldeb y tor-cyfraith posibl a'r goblygiadau. Os byddwch yn penderfynu ei bod yn rhesymol ymestyn y cyfnod adrodd, dylech gofnodi'r rhesymau dros hyn ac unrhyw dystiolaeth rhag ofn y bydd angen dangos hyn yn y dyfodol.

Wedi dweud hynny, os ydych chi'n credu eich bod wedi darganfod tor-cyfraith sy'n ymofyn sylw brys ac yn debygol o gael effaith uniongyrchol neu niweidiol ar y Gronfa neu aelodau'r cynllun, dylech roi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau dros y ffôn cyn cyflwyno eich adroddiad. Mewn senario o'r fath, nid oes angen i chi wirio p'un a oes unrhyw ddatrysiadau arfaethedig yn debygol o fod yn effeithiol cyn cysylltu â'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Taliad hwyr o gyfraniadau cyflogwr a/neu aelod cynllun gan gyflogwr

Fel y soniwyd eisoes, os yw eich rôl yn cynnwys gweithredu fel y rheolwr cynllun (h.y. Awdurdod Gweinyddu) ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd, mae'n ofyniad cyfreithiol arnoch i roi gwybod am unrhyw achos lle rydych yn credu bod methiant i dalu cyfraniadau gan gyflogwr yn debygol o fod o bwys arwyddocaol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid rhoi gwybod o fewn 14 diwrnod ar ôl i chi nodi rheswm dros gredu bod methiant sylweddol i wneud taliad yn bodoli.

Mewn senario o'r fath, bydd yn gyfrifoldeb arnoch i roi gwybod i aelodau'r cynllun am y sefyllfa o fewn 30 diwrnod ar ôl rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

7. Sicrhau fod achosion o dor-cyfraith yn cael eu cofnodi, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau

Rydym yn cadw cofnod o bob achos o dor-cyfraith wrth iddynt gael eu nodi. Un diben allweddol i'r cofnod tor-cyfraith yw sicrhau bod cofnod clir o ba gamau a gymerwyd i fynd i'r afael ag achos o dor-cyfraith, ond hefyd i sicrhau bod y mesurau hanfodol yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r risg o'r tor-cyfraith yn digwydd eto.

Mae'n bosibl y bydd cofnod o dor-cyfraith o'r gorffennol hefyd yn berthnasol wrth benderfynu a ddylid adrodd am achos o dor-cyfraith ai peidio (er enghraifft efallai y bydd yn datgelu problem systematig). Gan hynny, dylech ddarparu'r wybodaeth ganlynol i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd neu'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau fel bo modd i'r holl achosion a nodwyd gael eu cofnodi ar ein cofnod tor-cyfraith:

- copïau o adroddiadau a gyflwynwyd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau
- copïau o wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw achos arall o dor-cyfraith yr ydych wedi'u nodi.

Dylid darparu'r wybodaeth i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ac yn bendant cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl penderfynu p'un a ddylid adrodd ai peidio. Caiff y cofnod o bob achos (wedi'u hadrodd neu beidio) eu cynnwys yn yr Adroddiad Diweddar Llywodraethu ym mhob un o gyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, a bydd hwn hefyd yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd Pensiwn.


8. Sut rydym yn adolygu ein gweithdrefnau adrodd yn dilyn unrhyw newidiadau pwysig i drefniadau llywodraethu'r Gronfa

Yn yr un modd â phob un o'n polisïau, strategaethau a gweithdrefnau allweddol, rydym yn eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff y Weithdrefn hon ei hadolygu o leiaf bob tair blynedd, ond byddwn yn ei hadolygu'n gynt os bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu'r Gronfa. Fel rhan o'n trefniadau rheoli mewnol, caiff pob un o'n dogfennau allweddol eu hystyried gan ein swyddogion yn flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Fel rhan o'n goruchwyliaeth barhaus o'n trefniadau llywodraethu, mae'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau, y Bwrdd Pensiynau a'r Panel Ymgynghorol (a'i is-grwpiau) i gyd yn ystyried cofnodion ac adroddiadau o achosion tor-cyfraith, ac felly'n gallu amlygu'r angen i adolygu'r Weithdrefn hon ar unrhyw bryd. Mae ein Hymgyngorydd Annibynnol hefyd yn cynnal adolygiad blynyddol o'n trefniadau llywodraethu ac yn rhoi gwybod os ydynt yn ystyried bod angen adolygu'r Weithdrefn hon.

Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i'r Weithdrefn hon gael eu cytuno gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.

Cymorth i unigolion ddilyn y weithdrefn hon

Darperir coeden benderfyniadau isod i roi crynodeb o'r broses ar gyfer penderfynu p'un a oes tor-cyfraith wedi digwydd, p'un a yw o bwys arwyddocaol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau ac felly a oes angen ei adrodd, ac yna sicrhau ei fod yn cael ei gofnodi.



Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi llunio canllawiau i helpu gydag asesu p'un a ddylid rhoi gwybod am achos o dor-cyfraith ac argymhellwn eich bod yn eu defnyddio wrth weithio drwy'r weithdrefn hon. Mae'n cynnwys fframwaith goleuadau traffig (sy'n cyd-fynd â'r goeden benderfyniadau uchod) ac enghreifftiau o achosion coch, oren a gwyrdd o dor-cyfraith. Gellir dod o hyd i'r canllawiau yma [Assess whether to report a breach of pensions law | The Pensions Regulator](#) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Adrodd am achos o dor-cyfraith wrth y Rheoleiddiwr Pensiynau

Os ydych chi'n penderfynu rhoi gwybod am achos o dor-cyfraith i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, gallwch wneud hyn naill ai drwy ddefnyddio system ar-lein y Rheoleiddiwr Pensiynau ar login.thepensionsregulator.gov.uk (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg) drwy e-bost neu drwy'r post. Dylech amlygu eich adroddiad fel un brys lle bo hynny'n briodol, gan dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n ddifrifol iawn. Nid yw'r Rheoleiddiwr Pensiynau'n derbyn adroddiadau dros y ffôn gan amlaf, ond os ydych chi wedi nodi achos brys o dor-cyfraith sy'n debygol o gael effaith uniongyrchol a niweidiol ar aelodau'r cynllun, caniateir i chi roi gwybod am hyn dros y ffôn a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig yn dilyn hynny.

Dylech sicrhau eich bod yn derbyn cydnabyddiaeth am unrhyw adroddiad yr ydych yn ei anfon at y Rheoleiddiwr Pensiynau. Bydd y Rheoleiddiwr Pensiynau yn cydnabod ei fod wedi

derbyn pob adroddiad cyn pen pum diwrnod gwaith a gallai gysylltu â chi i ofyn am wybodaeth bellach. Ni fyddwch fel arfer yn cael eich hysbysu o unrhyw gamau a gymerwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau oherwydd cyfyngiadau yn gysylltiedig â datgelu gwybodaeth.

Wrth wneud eich adroddiad, dylech, fel lleiafswm, ddarparu'r canlynol:

- enw llawn y cynllun (Cronfa Bensiynau Clwyd)
- disgrifiad o'r achos(ion) o dor-cyfraith
- unrhyw ddyddiadau perthnasol
- enw rheolwr y cynllun (Cyngor Sir y Fflint)
- eich enw chi a'ch swydd a'ch manylion cyswllt
- eich rôl mewn cysylltiad â'r cynllun
- y rheswm pam y credwch fod yr achos o dor-cyfraith o bwys arwyddocaol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau
- cyfeiriad y cynllun (a ddarperir ar ddiwedd y Weithdrefn hon)
- manylion cyswllt rheolwr y cynllun (a ddarperir ar ddiwedd y Weithdrefn hon)
- math o gynllun (gwasanaeth cyhoeddus)
- rhif cofrestru'r cynllun pensiwn (PSR: 00329655RN)
- p'un a oes adroddiad blaenorol wedi'i wneud am y tor-cyfraith hwn (a ph'un a oes nifer o bobl yn cyflwyno adroddiad ar y cyd).

Dylech ddarparu gwybodaeth bellach neu adroddiadau am achosion eraill o dor-cyfraith os bydd hyn yn helpu'r Rheoleiddiwr Pensiynau i gyflawni ei swyddogaethau.

Er efallai y bydd mwy nag un unigolyn yn gyfrifol yn gyfreithiol am gyflwyno adroddiad, ni ddylech ddibynnu ar unigolyn arall i roi gwybod am achos o dor-cyfraith. Fodd bynnag, mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau'n gofyn i chi osgoi dyblygu adroddiadau lle bo modd.

Cyfrinachedd

Ar gais, bydd y Rheoleiddiwr Pensiynau yn gwneud ei orau i amddiffyn hunaniaeth unigolyn sydd wedi adrodd am achos o dor-cyfraith ac ni fydd yn datgelu gwybodaeth oni bai ei bod yn ofynnol yn unol â'r gyfraith iddo wneud hynny.

Mae'n bosibl y caiff gweithiwr ei amddiffyn hefyd o dan y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 os ydynt yn cyflwyno adroddiad yn ddiwyll yn ymwneud â'u cyflogwr.

Ystyriaeth ac adroddiadau parhaus am achosion o dor-cyfraith y Gronfa

Rydym yn cyflwyno adroddiad i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau bob chwarter i amlinellu:

- pob achos presennol o dor-cyfraith a phob achos o dor-cyfraith sydd wedi cael eu datrys ers y cyfarfod diwethaf
- p'un a yw'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi cael gwybod amdanynt, a'r dyddiadau cysylltiedig

- disgrifiad, achos, effaith bosibl a goblygiadau ehangach mewn perthynas â phob achos o dor-cyfraith
- manylion y camau a gymerwyd a chanlyniad hyn
- unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill i atal ail achos o'r tor-cyfraith dan sylw
- asesiad o'r tor-cyfraith (Coch, Oren neu Wyrdd) gan gynnwys y rhesymeg

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o ddogfennau cyhoeddus y Pwyllgor gan eithrio dogfennau sensitif/cyfrinachol lle bo angen. Ceir enghraifft o'r wybodaeth yr ydym yn ei chynnwys yn yr adroddiadau chwarterol yn Atodiad B y weithdrefn hon.

Mae aelodau'r Bwrdd Pensiwn hefyd yn derbyn y wybodaeth hon ac yn ystyried achosion o dor-cyfraith fel rhan o bob cyfarfod Bwrdd Pensiwn.

Mae swyddogion ac ymgynghorwyr yn adolygu ac yn ystyried ein cofnod tor-cyfraith mewn cyfarfodydd rheoli. Maent yn gwerthuso unrhyw achosion parhaus o dor-cyfraith i sicrhau fod patrymau'n cael eu nodi a'u hystyried ymhellach. Pwrpas hyn yw lleihau'r risg o achosion tor-cyfraith o'r fath yn datblygu i fod yn fwy arwyddocaol yn y dyfodol.

Cymeradwyo ac Adolygu

Cymeradwywyd ac adolygwyd y fersiwn hon o'r Weithdrefn ar gyfer Cofnodi ac Adrodd am Achosion o Dor-Cyfraith gan Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd ar 19 Chwefror 2025. Bydd yn parhau i gael ei hadolygu a'i diweddarau fel y bo'n briodol ac o leiaf bob tair blynedd. Bydd y fersiwn ddiweddaraf o'r Weithdrefn ar gael ar wefan y Gronfa [Strategies and Policies](#).

Gwybodaeth Bellach

Os oes angen gwybodaeth bellach arnoch am adrodd am achosion o dor-cyfraith neu'r weithdrefn hon neu os ydych yn dymuno trafod adrodd am achos o dor-cyfraith, cysylltwch â:

Philip Latham: Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd

E-bost: Philip.latham@siryfflint.gov.uk

Rhif ffôn: 01792 002129

Neu

Karen Williams: Rheolwr Gweinyddu Pensiynau

E-bost: Karen.Williams@siryfflint.gov.uk

Rhif ffôn: 01792 002129

Manylion cyswllt swyddog dirprwyedig arall:

Gareth Owens: Swyddog Monitro, Cyngor Sir y Fflint

E-bost: gareth.legal@siryfflint.gov.uk

Rhif ffôn: 01352 702344

Cyfeiriad: Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Atodiad A: Enghreifftiau o dor-cyfraith

Yn yr atodiad hwn rydym yn darparu ychydig o enghreifftiau o dor-cyfraith. Nid yw hon yn rhestr gyflawn gan fod sawl cyfres o ddeddfwriaethau i'w dilyn ac mae rhai o'r rhain yn eithriadol o hir a chymhleth. Fodd bynnag, dylai roi syniad defnyddiol o'r amrywiaeth o achosion posibl o dor-cyfraith a allai godi. Gellir dod o hyd i enghreifftiau pellach o fewn canllawiau adrodd y Rheoleiddiwr Pensiynau.⁵

Peidio ag ymgynghori ar y Datganiad Strategaeth Ariannu yn unol â Rheoliadau CPLIL a chanllawiau'r Datganiad Strategaeth Gyllido

Mae Rheoliad 58 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, fel y'i diwygiwyd, yn mynnu fod yr awdurdod gweinyddu yn paratoi, cynnal a chyhoeddi datganiad sy'n gosod allan ei strategaeth ariannu ac, wrth wneud hynny, ymgynghori ag unigolion y mae'n eu hystyried yn briodol. Trwy wneud hyn, rhaid i'r Awdurdod Gweinyddu hefyd roi ystyriaeth i'r [Canllawiau ar gyfer paratoi a chynnal Datganiad Strategaeth Ariannu](#) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg) a ddiweddarwyd ym mis Ionawr 2025 sy'n datgan yn glir y dylid ymgynghori â chyflogwyr. Mae'r Strategaeth Ariannu yn cael effaith ar gyflogwyr y Gronfa ac felly mae tor-cyfraith gan yr Awdurdod Gweinyddu yn debygol o godi os cafodd datganiad ei baratoi sy'n effeithio ar gyflogwyr heb ymgynghori â'r cyflogwyr hynny yn gyntaf.

Hysbysiadau hwyr o fuddion

Mae rheoliadau amrywiol yn gorchymyn beth yw'r amserlenni ar gyfer rhoi hysbysiadau o fuddion cynlluniau, gweler crynodeb o rai ohonynt isod. Mae mwyafrif y gofynion hyn yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaethau pensiynau mwy cyffredinol h.y. nid Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Byddai tor-cyfraith yn digwydd bob tro y mae un o'r terfynau amser hyn yn cael eu methu. Byddai pob un o'r achosion o dor-cyfraith yn ymwneud â'r Awdurdod Gweinyddu, ac eithrio'r un olaf a fyddai'n dor-cyfraith gan gyflogwr yn y Gronfa. Fodd bynnag, byddai'r pump cyntaf a restrir wedi gallu digwydd o ganlyniad i wybodaeth hwyr neu wybodaeth anghywir gan gyflogwr, a gallai hynny fod yn dor-cyfraith ar wahân ac ychwanegol gan y cyflogwr hwnnw.

Y Broses	Gofyniad Cyfreithiol
Darparu gwybodaeth am y cynllun i ddechreuwyd newydd	2 fis ar ôl dyddiad ymuno (darparu gwybodaeth am y cynllun o fewn y terfyn amser hwn, neu cyn pen mis ar ôl derbyn gwybodaeth deiliad y swydd os yw unigolyn yn cael ei gofrestru / ail-gofrestru yn awtomatig)

⁵ [Assess whether to report a breach of pensions law](#) | The Pensions Regulator (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Y Broses	Gofyniad Cyfreithiol
Hysbysu aelodau sy'n gadael y cynllun o'u hawliau a'u dewisiadau o ran gadael	Cyn gynted ag sy'n ymarferol, a dim mwy na 2 fis ar ôl dyddiad yr hysbysiad dechreuol (gan y cyflogwr neu aelod y cynllun)
Hysbysu o swm y buddion ymddeol	1 mis ar ôl dyddiad ymddeol os yw ar oedran pensiwn arferol neu ar ôl hynny 2 fis ar ôl dyddiad ymddeol os yw cyn oedran pensiwn arferol
Hysbysu dibynydd(ion) o swm y buddion marwolaeth	Cyn gynted ag sy'n bosibl ond dim mwy na 2 fis ar ôl cael gwybod am y farwolaeth, neu ar ôl dyddiad y cais mewn unrhyw achos
Darparu datganiadau buddion blynyddol i aelodau gweithredol	31 Awst yn yr un flwyddyn galendr
Derbyn cyfraniadau gweithwyr gan gyflogwyr	19eg diwrnod y mis yn dilyn eu didyniad neu'r 22 ^{ain} os caiff ei dalu'n electronig.

Gwallau wrth gyfrifo buddion

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, fel y'i diwygiwyd, a deddfwriaeth CPLIL blaenorol sy'n ymwneud â gwasanaeth neu wyliau o'r gorffennol, yn gorchymyn sut i gyfrifo buddion. Mae hyn yn cynnwys elfennau fel pa ffraciwn o dâl i'w ddefnyddio i gyfrifo pensiwn a beth sy'n cyfrif fel tâl at ddibenion CPLIL. Byddai Awdurdod Gweinyddu yn torri'r gyfraith mewn sefyllfa lle na fyddai unrhyw gyfrifiad a gyflawnir yn cyd-fynd â'r darpariaethau hynny.

Gwallau wrth didynnu cyfraniadau

Mae Rheoliad 20 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, fel y'i diwygiwyd, yn datgan pa elfennau o dâl y dylid eu trin fel rhai pensiynadwy ac felly a ddylai fod yn destun didyniadau cyfraniadau pensiwn ac y dylid eu defnyddio i gyfrifo buddion o 1 Ebrill 2014. Rheoliad 4 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, fel y'i diwygiwyd, yw'r ddarpariaeth gyfatebol ar gyfer aelodau o'r cynllun cyn 1 Ebrill 2014 a gan hynny mae'n rhoi manylion sut y dylai tâl pensiynadwy gael ei gyfrifo gan gyflogwr ar gyfer buddion a gronnwyd cyn 1 Ebrill 2014. O dan y darpariaethau hyn, mae goramser digontract yn bensiynadwy o 1 Ebrill 2014 ond nid yw'n cael ei ddosbarthu fel pensiynadwy ar gyfer buddion a gronnwyd cyn 1 Ebrill 2014. Byddai tor-cyfraith gan gyflogwr yn codi pe bai un o'r pethau canlynol yn digwydd:

- **nid** yw cyflogwr wedi didynnu cyfraniadau pensiwn o oramser digontract ers 1 Ebrill 2014

- **nid** yw cyflogwr wedi cynnwys goramser digontract yng nghyfanswm unrhyw dâl pensiynadwy yr hysbyswyd yr Awdurdod Gweinyddu ohono ar gyfer aelodaeth o 1 Ebrill 2014 ymlaen
- **mae** cyflogwr wedi cynnwys goramser digontract yng nghyfanswm y tâl terfynol yr hysbyswyd yr Awdurdod Gweinyddu ohono i'w ddefnyddio i gyfrifo buddion a gronwyd cyn 1 Ebrill 2014

Hysbysiadau hwyr o wybodaeth diwedd blwyddyn gan gyflogwr

Mae Rheoliad 80 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 yn mynnu fod pob cyflogwr yn darparu rhestr i'r Awdurdod Gweinyddu o wybodaeth benodol ar gyfer pob aelod o'r cynllun, megis tâl pensiynadwy, erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn. Byddai cyflogwr yn torri'r gyfraith pe bai'n methu â darparu'r rhestr diwedd blwyddyn hwn i'r awdurdod gweinyddu erbyn 30 Mehefin neu pe bai'r wybodaeth yn anghyflawn neu'n anghywir.

Gwybodaeth annigonol am aelod o'r Bwrdd Pensiwn

Mae Adran 248A o Ddeddf Pensiynau 2004 yn mynnu fod pob aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn gyfarwydd â rheolau'r CPLIL a Pholisïau'r Gronfa Bensiynau yn ogystal â meddu ar ddealltwriaeth a gwybodaeth am faterion pensiwn i'r fath raddau sy'n briodol at ddibenion ymarfer eu swyddogaethau Bwrdd Pensiwn. Os yw aelod o'r Bwrdd Pensiwn wedi methu â mynychu hyfforddiant neu ddangos fod ganddynt eisoes lefel ofynnol o wybodaeth, mae'n bosibl y bydd yr aelod hwnnw o'r Bwrdd Pensiwn wedi torri'r gyfraith.

Methiant i gysylltu â'r dangosfwrdd pensiynau

Cyflwynodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ganllawiau mewn perthynas â'r dangosfwrdd pensiynau a'r amserlen gysylltu fesul cam [Pensions dashboards: guidance on connection: the staged timetable - GOV.UK](#) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg) ym mis Mawrth 2024. Mae'r amserlen gysylltu fesul cam yn amlinellu bod yn rhaid i gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus gysylltu â dangosfyrddau pensiynau erbyn 31 Hydref 2025. Mae'n ofyniad cyfreithiol i reolwyr y cynllun ystyried y canllawiau hyn fel rhan o'u rhwymedigaethau a byddai methiant i wneud hyn yn mynd yn groes i'r gofyniad hwn. Yn ogystal â hynny, os na fydd rheolwyr y cynllun yn gallu dangos sut maent wedi ystyried y canllawiau, fe all arwain at gam gorfodi gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Felly, byddai methiant i gysylltu â dangosfyrddau pensiwn erbyn 31 Hydref 2025 yn cynrychioli methiant i fodloni'r gofyniad cyfreithiol.

Cyfarwyddiadau buddsoddi twyllodrus (trosglwyddiad ariannol twyllodrus)

Mae Deddf Twyll 2006 yn cyfeirio at y drosedd o dwyll drwy ymhoniad anwir. Gall actorion difriol ecsbloetio gwendidau diogelwch a defnyddio peirianeg gymdeithasol mewn ymgais i waredu asedau o'r cynllun.

Mae swyddog Cronfa Bensiynau Clwyd yn derbyn cyfarwyddyd i drosglwyddo dogfennau teitl neu elw gwerthiant i leoliad nad yw'n ymddangos fel ceidwad y Gronfa, cronfa CLILC, neu reolwr cronfa hysbys arall heb eglurhad boddhaol.

Ar ôl gwirio'r eglurhad, mae swyddog Cronfa Bensiynau Clwyd yn pennu'r achos fel anonestrwydd, h.y. nid oedd y cyfarwyddyd wedi dod gan Gronfa Bensiynau Clwyd, ac ymddengys bod cyfeiriad e-bost hysbys wedi'i ffugio.

Llywodraethu buddsoddi gwael

Mae Rheoliadau Buddsoddi CLILC 2016 (7) yn nodi bod yn rhaid i awdurdod, ar ôl erbyn cyngor priodol, ffurfio strategaeth fuddsoddi yn unol â'r canllawiau a gyflwynir o bryd i'w gilydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau'n gwneud newidiadau i'w Datganiad Strategaeth Buddsoddi heb geisio'r "cyngor priodol" gofynnol - cyngor gan rywun y mae gan yr awdurdod reswm i gredu eu bod yn gymwys yn sgil eu gallu a'u profiad mewn perthynas â materion ariannol.

Efallai mai diffyg dealltwriaeth o'r gofyniad rheoleiddiol a achosodd hyn. Gall methiant i geisio'r cyngor gofynnol arwain at ddatganiad anaddas.

Atodiad B: Cofnod Enghreifftiol o Dor-Cyfraith ar gyfer Adrodd i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn

Cyfeirnod	Dyddiad cofnodi yn y Gofrestr	Teitl yr achos o dor-cyfraith	Perchennog y tor-cyfraith	Trydydd parti a achosodd y tor-cyfraith (os oes un)	Disgrifiad ac achos	Effaith bosibl y tor-cyfraith a'r goblygiadau ehangach	Gweithred (ymateb) cychwynnol	Asesu tor-cyfraith (coch/ oren/ gwyrdd) Crynodeb byr o'r rhesymeg	Wedi'i adrodd i TPR Do / Naddo	Camau pellach i adfer y tor-cyfraith	Camau sy'n weddill (os oes rhai)



cronfabensiynauclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd arm ein gwefan.